# Crynodeb o Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol

## Cyngor Sir Ynys Môn

Yn ei adroddiad gwella blynyddol ar gyfer 2009-10 nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru rai negeseuon pwysig ynghylch y ffordd y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu gwella ei wasanaethau. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath, yn dilyn deddfwriaeth newydd ym mis Ebrill 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wneud trefniadau i wella eu gwasanaethau a'r ffordd maent yn gweithio. Bu'r flwyddyn gyntaf hon yn un o addasu, ac mae'r adroddiad hwn yn fan cychwyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiadau mwy cyflawn o'r ffordd y mae cynghorau'n perfformio mewn blynyddoedd i ddod.

Prif neges yr adroddiad oedd bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau difrifol Archwiliad Llywodraethu 2009 yr Archwilydd Cyffredinol, a arweiniodd at ymyrraeth Weinidogol. Ond, mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau nad yw problemau'r gorffennol yn dod i'r amlwg eto unwaith y bydd yr ymyrraeth hon wedi dod i ben a bod y Cyngor yn cynnal ffocws strategol clir ar gyflawni gwelliannau i ddinasyddion. Ceir crynodeb o'r prif gasgliadau isod.

Mae newidiadau ar lefel uwch reolwyr yn helpu i gynyddu'r ffocws ar faterion strategol a sicrhau bod penaethiaid gwasanaethau yn fwy atebol am faterion gweithredol nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i ddelio'n effeithiol â newidiadau mewn teyrngarwch gwleidyddol. Mae risg sylweddol y bydd gwleidyddiaeth sy'n seiliedig ar bersonoliaeth a'r awydd am awdurdod unwaith eto'n tynnu sylw cynghorwyr ac uwch reolwyr oddi ar y problemau gwirioneddol sy'n wynebu'r Cyngor a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Penodedig fod y datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, nododd yr archwiliwyr nifer o faterion pwysig wrth archwilio'r cyfrifon, ac ni chymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon erbyn 30 Medi 2010 yn ôl gofynion rheoleiddiadau cyfrifo.

Bydd y Cyngor yn cael tua £1.6 miliwn (1.7 y cant) yn llai o arian refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Er bod gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor wedi datblygu'n dda dros y misoedd diwethaf, mae wedi nodi bod angen iddo sicrhau tua £10 miliwn o arbedion dros dair blynedd. Mae'r cynigion a wnaed hyd yn hyn wedi nodi tua £7 miliwn o'r arbedion angenrheidiol a chaiff pob un o'r cynigion ei ategu gan gynllun prosiect amlinellol.

Cyhoeddodd y Cyngor ei 34 o amcanion gwella ar ei wefan fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol ddechrau mis Gorffennaf, sy'n gam sylweddol yn y cyfeiriad cywir o ran sicrhau bod ei fwriadau a'i atebolrwydd am eu cyflawni yn fwy tryloyw. Mae pob amcan yn gysylltiedig ag un o bum amcan strategol, ond nifer cymharol fach sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella canlyniadau i ddinasyddion.

Canfu adolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ac ymrwymiad cryf i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Canfu ei archwiliad o drefniadau diogelu plant fod y system atgyfeirio a dyrannu yn gweithio'n dda ond nododd wendidau o ran rheoli nifer yr atgyfeiriadau, gweithredu meini prawf cymhwysedd, cofnodi achosion, ac amseru a sicrhau ansawdd asesiadau. Er bod amcan y Cyngor o ddiwallu anghenion tai lleol yn briodol, ni chaiff ei ategu gan ganlyniadau penodol i ddinasyddion na chynlluniau clir ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hynny.

Mae'r cyrhaeddiad addysgol yn Ynys Môn yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn gwella ar y cyfan. Canfu archwiliad ar y cyd rhwng Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2009 fod y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o wella ysgolion yn effeithiol ac nad oedd unrhyw ddiffygion pwysig. Mae cost fesul disgybl a chronfeydd wrth gefn ysgolion yn uchel ond, ar ôl cyfnod lle cafwyd oedi wrth wneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol, mae gwaith ad-drefnu bellach yn mynd rhagddo. Yng ngoleuni cyfradd gyflogaeth sy'n is na'r cyfartaledd ac incymau cyfartalog cymharol isel, mae amcan y Cyngor o wella cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol yn briodol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor fod yn fwy penodol am y canlyniadau y mae'n gobeithio eu cyflawni a sut y bydd yn mesur ei gyfraniad at y gwaith o'u cyflawni.

Mae diogelwch a glendid yr ardal yn cymharu'n dda â gweddill Cymru. Mae gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio'n dda iawn. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o bartneriaethau gwahanol ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn cynnal a gwella perfformiad yn y tymor hwy.

**Noder**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn gyfrifol am gynnal archwiliad blynyddol o tua £20 biliwn o wariant cyhoeddus blynyddol. Ei nod yw hyrwyddo gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Penodwyd Huw Vaughan Thomas yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Hydref 2010. Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl yr Archwilydd Cyffredinol a'r Asesiad Gwella Blynyddol newydd ym maes llywodraeth leol ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk a gwefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ynys Môn

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Huw Lloyd Jones a John Roberts, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Ynys Môn? 04

A gaiff Cyngor Sir Ynys Môn ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella? 09

A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi pobl mewn angen? 13

A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn helpu pobl i ddatblygu? 18

A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo? 21

Beth y dylai Cyngor Sir Ynys Môn ei wneud? 22


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 24

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn 26

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 27

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn 28

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Ynys Môn 30

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 32

# Pa fath o ardal yw Ynys Môn?

1 Mae Ynys Môn ychydig dros 700 cilomedr sgwâr a thirlun gwledig sydd ganddi'n bennaf. Mae ei harfordir sy'n 200 cilomedr o hyd yn cynnwys ystod eang o draethau tywod a childraethau creigiog sy'n denu nifer sylweddol o dwristiaid yn ystod yr haf. Mae ffordd gyflym yr A55 yn un o ddwy groesfan sy'n cysylltu'r ynys â'r tir mawr ac mae'n galluogi teithwyr a cherbydau i deithio'n gyflym yn ôl ac ymlaen i borthladd Caergybi.

2 Ar sail yr amcangyfrif diweddaraf (2009), mae gan Ynys Môn boblogaeth o tua 69,000. Ceir pedair prif dref - Caergybi yw'r mwyaf ohonynt o bell ffordd gyda phoblogaeth o tua 13,500. Mae Ynys Môn yn fwy prin ei phoblogaeth na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru ond mae'n hawdd cyrraedd pob un o'i threfi a'i phentrefi o fewn hanner awr neu lai o ganolfan weinyddol y Cyngor yn Llangefni.

3 Dengys proffil oedran poblogaeth Ynys Môn fod 21.4 y cant o'r boblogaeth yn 65 oed neu drosodd, sef y gyfran uchaf ond dau o bobl hŷn ymhlith awdurdodau lleol Cymru. I'r gwrthwyneb, dim ond 17.9 y cant o'r boblogaeth sy'n blant rhwng 0 ac 16 oed; mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Gall dros 60 y cant o boblogaeth yr ynys siarad Cymraeg, sef y gyfran uchaf ond un ymhlith awdurdodau lleol Cymru.

4 Yn 2008 roedd y gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oedran gweithio ar Ynys Môn yn 69.2 y cant, a oedd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Rhwng 2001 a 2008 roedd y gyfradd gyflogaeth yn debyg i'r hyn a welwyd yng Nghymru'n gyffredinol. Fodd bynnag, ers 2008, cafwyd colledion swyddi mawr, yn enwedig o ganlyniad i gau cyflogwr diwydiannol mawr yng Nghaergybi.

5 Yn 2009, roedd enillion wythnosol cyfartalog Ynys Môn yn £493, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru sef £506. Ceir ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, gyda phum partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi'u sefydlu.

ardal ddaearyddol
700 $km^2$
/////////////

poblogaeth
69,000
/////////////

17.9% yn 0-16 oed
21.4% yn >65 oed
/////////////

# A gaiff Cyngor Sir Ynys Môn ei reoli'n dda?

6 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth iawn. Ym mis Medi 2010 lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion am y ffordd y caiff Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ei drefnu a'i reoli. Nodir y pethau a ddywedwyd wrth y Cyngor yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Asesiad Corfforaethol llawn mae ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

7 Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad cyffredinol fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyriad Gweinidogol ond bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio'i drefniadau corfforaethol a sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau.

8 Mewn geiriau eraill, gwelwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y gwaith o weithredu argymhellion Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009, a arweiniodd at ymyrraeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, bydd rhai o'r cynlluniau yn cymryd amser i'w rhoi ar waith ymhob rhan o'r Cyngor mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw problemau'r gorffennol yn dod i'r amlwg eto ar ôl i'r camau ymyrryd gael eu cymryd.

9 Yn yr Asesiad Corfforaethol nodwyd bod llawer o'r sylfeini sydd eu hangen i fynd i'r afael â gwendidau sydd wedi hen ymsefydlu yno. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, a ddechreuodd ar ei waith ym mis Hydref 2009, wedi gwneud nifer o newidiadau angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y mae cynghorwyr yn gweithredu. Fodd bynnag, ni fu'r llwybr tuag at gynnydd yn un hawdd; yn sgîl newidiadau mewn teyrngarwch gwleidyddol gwanhau fu hanes sefyllfa Arweinydd y Cyngor a chafwyd clymblaid fregus o bosibl gyda phedwar grŵp gwleidyddol wrth y llyw. O ganlyniad i'r newidiadau hyn arafu a wnaeth y cynnydd, er enghraifft, o ran sefydlu pwyllgorau craffu newydd a mwy effeithiol. Nodwyd felly fod mwy o ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd y gwelliannau.

10 Nodwyd hefyd fod y Cyngor wedi cael llwyddiant blaenorol yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, ond, fel llawer o gynghorau eraill, roedd angen gwneud mwy o waith i ddeall yn llawn gostau a manteision gweithio mewn partneriaeth. Roedd y Cyngor wedi gwneud dechrau da o ran pennu ei flaenoriaethau ac roedd wedi defnyddio cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus i'w helpu i'w llunio. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod dinasyddion yn chwarae mwy o ran yng ngwaith y Cyngor ac i godi eu hymwybyddiaeth o rôl y cynghorydd cyfoes.

11 Roedd y Cyngor wedi cyflwyno fframwaith cynllunio busnes newydd er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn chwarae rhan yn y gwaith o bennu ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod rheoli perfformiad a rheoli risg yn dal i fod yn agweddau pwysig yr oedd angen eu gwella. Dechreuwyd ar y gwaith o ailddiffinio rôl y gwasanaeth Adnoddau Dynol fel y gallai wneud mwy o gyfraniad nag yn y gorffennol at feithrin sgiliau rheolwyr.

12 Ers i ni lunio ein hadroddiad, cafwyd cynnydd pellach. Mae newidiadau strwythurol ar lefel uwch reoli yn dechrau cynyddu gallu ac adnoddau Cyfarwyddwyr Corfforaethol i ganolbwyntio ar faterion strategol tra'n cynyddu atebolrwydd penaethiaid gwasanaeth dros faterion gweithredol.

13 Ceir mwy o eglurder nag o'r blaen mewn perthynas â'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan reolwyr ar bob lefel. Yn arbennig, mae'r Cyngor yn disgwyl i reolwyr fod yn fwy cyfrifol am reoli perfformiad, cyllid a staff. Yn unol â hynny, mae'r gwaith wedi dechrau i weddnewid gwasanaethau megis Cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh fel eu bod yn cefnogi rheolwyr yn eu gwaith. Mae'r Cyngor wedi comisiynu adolygiadau allanol o'r tair swyddogaeth hyn ers i ni gyhoeddi ein Hasesiad Corfforaethol ac mae'n gweithredu mewn ymateb i'r ddau adroddiad cyntaf. Ni chynhaliwyd yr adolygiad o TGCh eto.

14 Gwelwyd gwelliannau hefyd ym maes rheoli perfformiad, er bod y Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae'r ffocws corfforaethol ar gynllunio busnes wedi sicrhau bod pob cynllun bellach yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r Cyngor ac mae'r defnydd a wneir o feddalwedd Ffynnon yn helpu'r Cyngor i ganolbwyntio'n gliriach ar ei berfformiad nag a welwyd o'r blaen. Mae uwch reolwr wedi dadansoddi holl gynlluniau busnes 2010-11, gan nodi'r meysydd mwy cymhleth hynny lle mae angen i wasanaethau gydweithio er mwyn gwneud gwelliannau. Mae'r Cyngor yn cyflwyno technegau rheoli prosiect i niferoedd mawr o staff drwy raglen hyfforddi helaeth fel y gall fynd i'r afael â'r materion mwy cymhleth hyn yn fwy effeithiol nag o'r blaen. Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad oes ganddo'r adnoddau i allu ymdrin â phob prosiect sydd wedi deillio o'i waith cynllunio ac mae'n blaenoriaethu'n unol â hynny.

15 Mae cynnwys gwefan y Cyngor wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r 'hafan' bellach yn darparu amrywiaeth o wybodaeth hawdd ei deall am ddatblygiadau o fewn y Cyngor yn ogystal â digwyddiadau a gwybodaeth arall sydd o ddiddordeb mwy cyffredinol i ddinasyddion ac ymwelwyr ill dau. Mae adran newydd sy'n cynnwys papurau ac agendâu cyfarfodydd pwyllgor y Cyngor sydd ar ddod yn ddatblygiad sy'n gwella'n sylweddol allu'r cyhoedd i ymddiddori ym mhrosesau democrataidd y Cyngor. Serch hynny, mae rhai adrannau o'r wefan sy'n benodol i wasanaethau yn dal i gynnwys cynlluniau a dogfennau sy'n rhy hen i fod yn berthnasol.

16 Mae gwaith cynghorwyr hyfforddi a datblygu wedi parhau gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyflwynwyd strwythur pwyllgorau craffu newydd, a ategir gan lawer mwy o allu ac adnoddau swyddogion nag o'r blaen. Mae mwy o waith i'w wneud cyn i swyddogaeth graffu'r Cyngor allu dwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Fodd bynnag, ceir arwyddion calonogol mewn rhai pwyllgorau fod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau yn datblygu, gan eu galluogi i ofyn cwestiynau treiddgar yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau.

17 Serch hynny, bu problemau ers i ni gyhoeddi'r Asesiad Corfforaethol ym mis Medi 2010. Cyfrannodd newidiadau staffio yn yr adran gyllid at ohirio'r gwaith o baratoi datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar gyfer 2009-10. O ganlyniad, ni fu'n bosibl i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol. Mae hyn yn gyfystyr â diffyg llywodraethu mawr. Hefyd rhoddodd archwilwyr y Cyngor, a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, eu barn ar gyfrifon y Cyngor. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd datganiadau cyfrifo 2009-10 y Cyngor yn rhoi darlun cywir a theg o'i drafodion ariannol. Fodd bynnag, nododd yr archwilwyr nifer o faterion pwysig wrth archwilio'r cyfrifon ac ni chymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon erbyn 30 Medi 2010 yn ôl gofynion rheoleiddiadau cyfrifo. Mae trefniadau yn mynd rhagddynt er mwyn i'r Cyngor drafod â'r archwilwyr sut y gellir osgoi'r problemau hyn yn y dyfodol.

18 Mae'r llythyr archwilio blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd a wneir o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4. Ceir rhagor o wybodaeth am hawl pobl mewn perthynas â chyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

19 Yn dilyn newidiadau o ran teyrngarwch rhai cynghorwyr ym mis Mehefin 2010 sefydlwyd cynghrair lywodraethu newydd yn cynnwys pedwar grŵp gwleidyddol. Yn ein Hasesiad Corfforaethol nodwyd gennym fod y gynghrair hon yn fregus a bod ei sefydlu wedi tanseilio sefyllfa Arweinydd y Cyngor. Ers hynny, mae'r Arweinydd wedi cyhoeddi y bydd yn gadael ym mis Mai 2011. Mae'r trafodaethau a'r ymwneud gwleidyddol ynghylch ei olynydd wedi dechrau'n barod. Mae hyn yn peri risg sylweddol y bydd gwleidyddiaeth sy'n seiliedig ar bersonoliaeth a'r awydd am awdurdod unwaith eto'n tynnu sylw cynghorwyr ac uwch reolwyr oddi ar y problemau gwirioneddol sy'n wynebu'r Cyngor a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

20 Yn ein Hasesiad Corfforaethol cyfeiriwyd at y ffaith bod amheuon ynghylch cynaliadwyedd y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Cyngor dros y misoedd diwethaf. Rydym yn parhau i feddu ar yr amheuon hynny. Credwn ei bod yn hynod bwysig bod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio'n glir ar y rhaglen waith uchelgeisiol y mae wedi gosod iddo'i hun ar gyfer 2010-11, ac nad yw sylw cynghorwyr na swyddogion yn cael ei dynnu oddi ar hyn. Mae arweinwyr y Cyngor hefyd yn wynebu her sylweddol i bennu cyllideb ar gyfer 2011-12 sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen adfer barhau.

21 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld gostyngiad o tua £1.6 miliwn(1.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real[1] sydd tua £3.4 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

22 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 yn lleihau 14 y cant (sef lleihad o 18.5 y cant mewn termau real). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

23 Mae gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor wedi mynd rhagddo'n dda yn ystod y misoedd diwethaf. Yn ôl y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy mae angen i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion o tua £10 miliwn dros dair blynedd, gan ddechrau yn 2011-12, ac yn seiliedig ar gynnydd o 4.3 y cant yn Nhreth Gyngor Band D. Roedd lefelau Treth Gyngor Ynys Môn ar gyfer 2009-10 a 2010-11 yn cyfateb i'r bedwaredd isaf yng Nghymru. Mae'r cynigion a wnaed hyd yn hyn wedi nodi tua £7 miliwn o'r arbedion angenrheidiol a chaiff pob un o'r 41 o gynigion eu hategu gan gynllun prosiect amlinellol.

1 Ystyr termau real yw y caiff effaith chwyddiant ei hystyried. Mae llawer o wahanol ddulliau o fesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres datchwyddo CMC y Trysorlys.

24 Mae'r Cyngor wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd yn ystod mis Ionawr 2011 i glywed barn y cyhoedd ar ei gynigion ac o ble y daw'r arbedion sy'n weddill. Mae hyn yn gam arall ymlaen o ran perthynas y Cyngor â'i ddinasyddion. Serch hynny, erys llawer o waith i lunio fersiwn terfynol y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ac yna'i ymgorffori yng nghyllideb 2011-12, a gweithredu'r prosiectau a wnaiff sicrhau'r arbedion angenrheidiol yn llwyr.

25 Mae'r penderfyniad diweddar i ystyried cynyddu'n sylweddol raddau'r cydweithredu rhwng y Cyngor a Chyngor Gwynedd, sydd drws nesaf, yn cynnig y potensial i leihau costau ymhellach ac i sicrhau bod gwasanaethau'n fwy cadarn.

# A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella?

26 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud, sef y Cynllun Gwella. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn, sef ei amcanion gwella.

27 Rydym wedi ystyried pa mor dda y bydd cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Yn yr Asesiad Corfforaethol nodwyd nad oedd y Cyngor, ers sawl blwyddyn, wedi llwyddo i bennu cyfeiriad polisi clir a chyson i lywio'i benderfyniadau.

28 Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor wedi llunio a chyhoeddi ei Gynllun Busnes Corfforaethol, sy'n canolbwyntio ar bum blaenoriaeth strategol, sef:

- gwella enw da'r Cyngor a'r ynys;
- diogelu a datblygu economi'r ynys;
- adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy;
- hybu cymunedau iach, diogel a theg;
- darparu gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy.

29 Ar gyfer pob un o'r pum blaenoriaeth strategol, mae'r Cyngor, yn ei Gynllun Corfforaethol, wedi nodi rhwng tri a chwe ymrwymiad (cyfanswm o 25) sy'n amlinellu'r hyn a wna i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau. Yna mae'r Cynllun yn datblygu pob ymrwymiad ymhellach, gan bennu cyfanswm o 34 o flaenoriaethau gwella. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r 34 o flaenoriaethau hyn fel ei amcanion gwella, fel sy'n ofynnol o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Ar gyfer pob amcan gwella, nodir y canlynol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor:

- pwy sy'n bennaf cyfrifol am ei gyflawni;
- amserlen y gwaith;
- amlinelliad o'r canlyniadau a ddymunir.

30 Yn Arddangosyn 1 ceir enghraifft o un o amcanion gwella'r Cyngor, ynghyd â'r canlyniad a ddymunir. Yn Atodiad 5 rhestrir yr holl amcanion gwella.

31 Credwn fod amcanion gwella'r Cyngor yn ddilys; maent yn mynd i'r afael ag un neu ragor o'r saith maen prawf y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u nodi yn ei chanllawiau. O ystyried y problemau a wynebir gan y Cyngor, nid yw'n syndod bod cyfran

**Arddangosyn 1**

| Blaenoriaeth strategol | Amcan gwella | Canlyniad a ddymunir |
|---|---|---|
| Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy. | Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i bobl ddigartref oherwydd y galw amrywiol. | Digon o ddarpariaeth i fodloni'r galw. |

gymharol uchel o'r amcanion gwella, pe'u cyflawnid, yn fwyaf tebygol o wella effeithiolrwydd strategol y Cyngor yn hytrach nag arwain yn uniongyrchol at welliannau amlwg yn ansawdd ac argaeledd gwasanaethau. Nifer gymharol brin o'r amcanion gwella sydd wedi'u geirio mewn ffordd sy'n dangos yn glir fod y Cyngor yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i'w ddinasyddion.

32 Y Cynllun Corfforaethol yw ffrwyth llafur dadansoddiad cynhwysfawr o'r hyn a wna'r Cyngor. Ynddo crynhoir yr elfennau sy'n weddill o Gynllun Adfer y Cyngor mewn ymateb i Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009, ei waith cynllunio ariannol tymor canolig, a'i flaenoriaethau sy'n edrych tuag allan yn fwy. Drwy gyhoeddi'r cynllun, mae'r Cyngor wedi cymryd cam sylweddol ymlaen i wella tryloywder ei fwriadau a'i atebolrwydd am eu cyflawni. Mae faint o waith a geir yn y cynllun yn adlewyrchu rhaglen uchelgeisiol iawn ac, yn ddealladwy, mae'r amserlen ar gyfer cyflawni rhai amcanion yn mynd ymhell y tu hwnt i 2010-11.

33 Yn gynharach yn yr adroddiad hwn cyfeiriwyd at fframwaith cynllunio busnes y Cyngor sy'n datblygu. Mae hwn yn helpu uwch reolwyr i sicrhau bod gwaith pob gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hefyd yn helpu rheolwyr i ddwyn ynghyd themâu cyffredin fel y gall gwaith gwasanaethau gwahanol gael ei gydgysylltu'n fwy effeithiol nag o'r blaen.

34 Roeddem am sicrhau bod y Cyngor yn nodi'n glir sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Mae hon yn agwedd wannach ar y cynllun. Fel y cyhoeddwyd, nid yw 'canlyniad a ddymunir' pob amcan gwella yn cynnig fawr ddim syniad o'r graddau y mae'r Cyngor yn gobeithio gwella. Bydd yn anodd i'r Cyngor a'i ddinasyddion bennu a gyflawnwyd yr amcan ai peidio.

35 Mae'n rhaid i bob cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Er i'r gwaith o lunio'r Cynllun Corfforaethol ddechrau yn gynnar yn 2010, ni wnaeth y Cyngor fabwysiadu'r cynllun na'r amcanion gwella ynddo tan 5 Gorffennaf. Credwn y dylai'r Cyngor anelu at gytuno ar ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 cyn diwedd mis Mai 2011.

36 Gosododd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol mewn man amlwg ar ei wefan a gwnaeth yn glir bod copïau hefyd ar gael mewn Braille ac ar dâp. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cyngor, yn y dyfodol, ystyried ffyrdd o hyrwyddo ei amcanion gwella blynyddol ymhellach drwy ddefnyddio cyfryngau megis ei gylchlythyr neu bapur newydd lleol yn ogystal â'i wefan.

37 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Yn yr Asesiad Corfforaethol, nodwyd gennym, ar ddechrau 2010, i'r Weithrediaeth ar yr adeg honno gynnal nifer o 'sioeau teithiol' er mwyn helpu i bennu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2010-11. Mae'r pum blaenoriaeth a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn bellach yn ffurfio sylfaen Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r math hwn o ymgysylltu â dinasyddion yn gam arall ymlaen, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud mwy. Mae hyrwyddo a datblygu ymwneud y Cyngor â'i ddinasyddion a'i gymunedau yn un o'i amcanion gwella. Ar adeg o newid cyflym a chryn alw ar staff, mae'n bwysig bod eu safbwyntiau hefyd yn cyfrannu at lunio blaenoriaethau'r Cyngor.

38 Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella. Daeth archwilwyr penodedig y Cyngor i'r casgliad bod Adolygiad o Berfformiad y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010, yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan yr archwilwyr penodedig ynghylch cywirdeb dau o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y Cyngor[2] yn 2009-10; roedd a wnelo'r rhain â lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ac effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus.

39 Fel yn y gorffennol, mae perfformiad y Cyngor fel y'i mesurir gan y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a dangosyddion eraill yn y fframwaith mesur perfformiad cenedlaethol yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwellodd perfformiad y Cyngor yn ystod 2009-10 mewn perthynas â hanner y 148 o ddangosyddion. Mewn 30 y cant o'r dangosyddion hyn, roedd perfformiad y Cyngor yn well na pherfformiad tri chwarter y cynghorau eraill yng Nghymru. Cyfeiriwn yn fanylach at feysydd penodol o berfformiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

40 Yn ogystal â darparu dadansoddiad cyffredinol ar sail y fframwaith mesur perfformiad cenedlaethol, mae Adolygiad o Berfformiad 2009-10 hefyd yn cynnig gwerthusiad cryno o hynt meysydd penodol a nodwyd fel risgiau yn flaenorol. Lle y bo'n berthnasol, mae'r gwerthusiadau hyn yn cyfeirio at ddangosyddion perfformiad penodol, gan ddangos perfformiad y Cyngor yn 2008-09 yn ogystal â 2009-10. Maent hefyd yn cynnwys y targed ar gyfer 2009-10, gan ddangos a gyflawnwyd y targedau hyn ai peidio.

41 Mae'r gwerthusiadau hyn yn cynnig model defnyddiol ar gyfer 2011, pan fydd yn ofynnol i'r Cyngor adrodd ar ei gynnydd yn erbyn ei amcanion gwella. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Cyngor benderfynu pa ddangosyddion a thystiolaeth arall a ddefnyddir ganddo i farnu ei gynnydd a, lle y bo'n briodol, i bennu targedau addas a sefydlu data sylfaenol. Mae gwella ei drefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad yn un o'r 34 o amcanion gwella sydd gan y Cyngor.

2 Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn rhan o fframwaith mesur perfformiad o fesurau perfformiad diffiniedig y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol. Rhydd y fframwaith cymysgedd o fesurau strategol a gweithredol mewn amrywiaeth o feysydd polisi/gwasanaethau awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar eu perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol bob blwyddyn.

# A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwasanaethu pobl yn dda?

42 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn ystyried gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd ar Ynys Môn. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r prif bethau y dylai cynghorau eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo.

43 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych yn arbennig ar gynnydd y Cyngor hyd yn hyn mewn perthynas â dau o'i ymrwymiadau a wnaed yn ei Gynllun Corfforaethol a'r amcanion gwella sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiadau hynny. Mae'r Cyngor wedi dweud y bydd yn:

- cydweithredu er mwyn diwallu anghenion yr ynys o ran tai;
- meithrin sgiliau er mwyn diwallu anghenion y farchnad lafur.

Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

44 Rydym hefyd wedi trafod cynnydd y Cyngor gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd). Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n eu darparu sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob cyngor gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i ysgogi gwelliant.

45 Cyflwynodd y Cyngor ei adroddiad monitro blynyddol ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r Bwrdd ar ôl y terfyn amser cyntaf y cytunwyd arno, gan godi pryderon ynghylch trefniadau monitro'r Cyngor. Nododd y Bwrdd na wnaeth ymgyrch recriwtio ar gyfer swydd rheolwr ddilyn y polisi a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg a'i fod yn codi cwestiynau ynghylch yr ystyriaeth a roddir i'r Cynllun ym mhroses adfer ehangach y Cyngor. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad mewnol o'r broses recriwtio ac argymhellodd nifer o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd. Yn eu plith mae ymrwymiad i fabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith erbyn mis Ionawr 2011 a phroses fonitro fwy cadarn. Mae'r Cyngor wedi adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn yn un o'i amcanion gwella.

46 Gwelodd y Bwrdd fod gwefannau, dogfennaeth etholiadol a statudol a hysbysebion recriwtio'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

# A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi pobl mewn angen?

47 Mae cynghorau yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed. Y gwasanaeth mwyaf o blith y rhain yw darparu gofal cymdeithasol i blant ac oedolion sy'n agored i niwed a help ymarferol i alluogi pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol. Yn ddiweddar, cryfhaodd y Cyngor uwch reolaeth y gwasanaethau cymdeithasol wrth apwyntio pennaethiaid i'r gwasanaethau plant ac oedolion.

48 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

49 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

50 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a'r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

51 Mae'r Cyngor wedi gwneud yn dda o ran gwella ei berfformiad wrth gynnal asesiadau ar gyfer technoleg gynorthwyol ac mae wedi perfformio'n dda o ran cyflwyno pecynnau gofal cartref yn amserol yn ogystal â darparu cymhorthion a chyfarpar yn dilyn llunio'r cynllun gofal. Mae'r gyfradd fesul 1000 o oedolion 75+ oed lle cafwyd achos o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty i'r gymuned, sef 1.2 ddiwrnod, hefyd yn faes lle perfformiodd y Cyngor yn dda.

52 Nododd arolygiad AGGCC o wasanaethau amddiffyn oedolion fod prosesau rheoli effeithiol ar waith ar gyfer atgyfeiriadau a bod ymrwymiad cryf i barhau i ddiogelu oedolion o dan drefniadau rheoli gofal, yn dilyn y broses o gwblhau gweithdrefnau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r dull hwn o weithredu yn helpu i sicrhau cyfnod pontio da i wasanaethau a pharhad gofal.

53 Casgliadau cyffredinol arolygiad AGGCC o wasanaethau amddiffyn oedolion oedd bod ymateb effeithiol i honiadau o gam-drin, gyda gweithdrefnau'n cydymffurfio o fewn y terfynau amser. Gwelwyd bod staff yn deall y polisïau a gweithdrefnau ac roedd cefnogaeth y rheolwyr yn amlwg. Roedd trefniadau gweithio mewn partneriaeth, ar lefel weithredol, i'w gweld yn effeithiol. Fodd bynnag, nododd yr arolygiad fod angen gwneud gwelliannau o ran cofnodi gweithgarwch ac o ran cysondeb gwaith cofnodi, yn enwedig mewn perthynas â rheoli'r broses o asesu risg. Nid oedd effeithiolrwydd strwythurau ffurfiol, megis y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion, na'i allu i alluogi'r Cyngor i arwain mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol yn glir. Caiff cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r agwedd bwysig hon ar amddiffyn oedolion ei fonitro a'i adolygu'n barhaus.

54 O ran gwasanaethau oedolion, noda'r Cyngor y gall gyflogi gweithlu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol, gyda'r tîm yn taro cydbwysedd iach rhwng newydd-ddyfodiaid a staff profiadol iawn. Fodd bynnag, cafwyd rhai anawsterau i recriwtio gweithwyr iechyd meddwl oedolion proffesiynol.

55 O ran gwasanaethau plant, nododd Arolygiad AGGCC o Drefniadau Diogelu Plant yn 2009 fod y system atgyfeirio a dyrannu yn gweithio'n dda o ran gwneud penderfyniadau amserol a dyrannu achosion amddiffyn plant. Fodd bynnag, nododd hefyd fod angen i'r Cyngor wella'r broses o reoli nifer yr atgyfeiriadau o fewn gwasanaethau plant, gweithredu meini prawf cymhwysedd, cofnodi achosion, ac amseru a sicrhau ansawdd asesiadau. Dengys gwybodaeth perfformiad 2009-10 ar gyfer gwasanaethau plant nifer o feysydd pwysig y mae angen i'r Cyngor eu gwella. Yn eu plith mae canran yr atgyfeiriadau lle y gwnaed penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith, canran yr atgyfeiriadau a ddyrannwyd i weithiwr cymdeithasol ar gyfer eu hasesu ac amseroldeb gwaith asesu cychwynnol a chraidd.

56 Dywedodd y staff a gyfwelwyd yn ystod adolygiad AGGCC o Drefniadau Diogelu Plant fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn hygyrch, fel yr oedd cymorth hyfforddi a rheoli, ond nododd yr arolygwyr nad oedd polisïau a gweithdrefnau bob amser yn cael eu gweithredu'n gyson a bod angen gwella yn y meysydd hyn.

57 Rhydd gwybodaeth perfformiad ar gyfer rheoli ac adolygu gofal plant ddarlun cymysg. Perfformiodd y Cyngor yn dda mewn perthynas â nifer y lleoliadau cyntaf a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith, cynlluniau sefydlogrwydd yn unol â'r rheoliadau, ac o ran dyrannu gweithwyr cymdeithasol cymwys i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini ar y gofrestr amddiffyn plant. Fodd bynnag, er bod dyrannu achosion plant mewn angen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae lle i wella o hyd yn y maes pwysig hwn o waith.

58 Ceir ymrwymiad penodol i ddarparu'r holl wasanaethau i blant yn ddwyieithog ac mae'r Cyngor yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn 2009-10, i'r tîm Plant a Theuluoedd wynebu anawsterau'n darparu gwasanaethau ataliol am ei bod yn ofynnol i'r tîm gefnogi llai o allu ac adnoddau yn system ddyletswyddau'r Cyngor.

59 Nododd Adolygiad AGGCC o Drefniadau Diogelu Plant y cafwyd cryn anhawster i gynnal gweithlu llawn a oedd yn ddigon profiadol a chymwys. Yn ogystal, roedd y trefniadau dros dro hirfaith lle'r oedd staff yn 'cyflawni rôl lefel uwch' am gyfnodau hir o amser yn cael effaith niweidiol ar forâl staff.

60 Mae'r Cyngor yn ymdrin â diffygion mewn perfformiad drwy'r Bwrdd Gwelliannau Plant. Sefydlwyd y bwrdd yn 2009-10 ac mae wedi cefnogi'r galw am fwy o adnoddau i'r Tîm Asesu Plant. Ymhlith yr adnoddau ychwanegol mae ychwanegu swydd uwch ymarferydd a chynnwys ymgynghorydd yn ogystal â mwy o gymorth busnes. Mae'r bwrdd hefyd wedi cefnogi ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ynghylch mynediad at wasanaethau a meini prawf cymhwyso.

61 Cymerodd awdurdodau lleol yng Nghymru 349 diwrnod ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn 2009-10. Cymerodd Cyngor Sir Ynys Môn 387 diwrnod ar gyfartaledd, ond gwellodd ei berfformiad yn 2009-10 yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

62 Mae'r Cyngor hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau eraill sy'n helpu pobl mewn angen. Mae'n gyfrifol am weinyddu Budd-daliadau Tai a Threth Gyngor ac am roi llety i'r rheini a all fod yn ddigartref.

63 Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau newydd a newidiadau i hawliadau presennol am y Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Gyngor yn 2009-10. Fodd bynnag, cyflymodd y Cyngor yn sylweddol o ran prosesu'r newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn, gan leihau'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd o 17.1 diwrnod yn 2008-09 i 11.4 diwrnod yn 2009-10. Serch hynny, erys y gyfradd hon ychydig yn arafach na'r cyfartaledd o 10.1 diwrnod ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r Cyngor wedi pennu targed newydd o 12 diwrnod ar gyfer 2010-11, sydd ychydig yn arafach o ran prosesu ceisiadau na'r hyn a gyflawnwyd yn 2009-10.

## A yw'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n diwallu anghenion tai ar yr ynys?

64 Yn ei Gynllun Corfforaethol mae'r Cyngor wedi dweud y bydd yn 'cydweithio i gwrdd ag anghenion tai yr ynys'. Mae tri o'i amcanion gwella yn cefnogi'r ymrwymiad hwn, a nodir yn Arddangosyn 2.

65 Mae'r Cyngor wedi penderfynu dal gafael yn ei stoc o dai cymdeithasol ac felly mae'n parhau i fod yn gyfrifol am wella cartrefi tenantiaid fel eu bod yn cyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae'r Cyngor wedi casglu data ar gyflwr ei stoc tai a gŵyr, yn fras, faint o waith sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd y safon sy'n ofynnol. Yn ei rôl fel landlord, mae'r Cyngor wedi ennill gwobr am 'ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan y cwsmer'.

**Arddangosyn 2**

| Amcan gwella | Canlyniad a ddymunir |
|---|---|
| Parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor er mwyn bodloni gofynion SATC. | Stoc tai o ansawdd gwell. |
| Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i bobl ddigartref oherwydd y galw amrywiol. | Digon o ddarpariaeth i fodloni'r galw. |
| Cyflawni'r rhaglen tai fforddiadwy gyda sefydliadau partner. | Tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. |

66 Fodd bynnag, fel y nodir yn ei Gynllun Corfforaethol, nid yw'r amcan gwella hwn yn rhoi unrhyw wybodaeth i ddinasyddion am raddau'r gwelliannau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud yn ystod 2010-11. Mae'r cynllun yn cynnwys rhai targedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ond nid oes a wnelo'r un ohonynt â'r amcan gwella hwn. Felly, ni fydd dinasyddion yn gallu barnu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei nod ai peidio.

67 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n cynnal astudiaeth o'r holl gynghorau yng Nghymru a fydd, ymhlith pethau eraill, yn darparu'r asesiad diweddaraf o'r cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau'r astudiaeth hon yn adroddiad y flwyddyn nesaf fel rhan o'n hasesiad o gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni'r amcan gwella hwn.

68 Cymysg yw perfformiad y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin ag anghenion pobl ddigartref. Mae wedi dod yn fwyfwy llwyddiannus yn atal digartrefedd, gan berfformio'n well na'r cyfartaledd a gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf chwe mis yn achos 72 y cant o'r holl aelwydydd a allai fod wedi cael eu hunain yn ddigartref, o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 60 y cant. Fodd bynnag, unwaith y bydd trigolion yn ddigartref, awgryma dangosyddion perfformiad fod y Cyngor yn araf i ymateb. Gostyngodd canran yr achosion o ddigartrefedd a bennwyd o fewn 33 diwrnod gwaith ryw ychydig o 99.3 y cant yn 2008-09 i 94 y cant yn 2009-10.

69 Er i nifer y teuluoedd â phlant mewn llety gwely a brecwast leihau o 24 yn 2008-09 i saith yn 2009-10, cynyddodd y nifer gyfartalog o ddiwrnodau a dreuliwyd yn y llety hwnnw o 44 diwrnod i 51 diwrnod, sef yr hiraf yng Nghymru. Mae pobl ddigartref (gan gynnwys teuluoedd â phlant) yn treulio llawer mwy o amser mewn llety dros dro na phobl mewn rhannau eraill o Gymru. Yn 2009-10 treuliodd pob aelwyd ddigartref ar Ynys Môn 267 o ddiwrnodau ymhob math o lety dros dro yn erbyn cyfartaledd Cymru sef 99 diwrnod.

70 Dengys gwaith dadansoddi yn adolygiad y Cyngor o'i berfformiad fod y Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r ffaith bod angen i rai agweddau ar ei waith yn darparu gwasanaethau i bobl ddigartref wella. Dengys y dadansoddiad ddealltwriaeth dda o'r problemau sy'n sail i'r data ar berfformiad. Mae'n egluro, er enghraifft, nad yw'r diffiniad y cytunwyd arno'n genedlaethol o un dangosydd perfformiad yn cynnwys, yn ffigurau'r Cyngor, y 150 o deuluoedd sy'n cael llety dros dro o ansawdd da drwy ei gynllun les sector preifat. Mae'r Cyngor wedi dewis is-set briodol o'r dangosyddion sydd ar gael i fonitro ei gynnydd yn atal digartrefedd ac yn diwallu anghenion y rheini sy'n cael eu hunain yn ddigartref.

71 Fodd bynnag, nid yw amcan gwella'r Cyngor ar gyfer digartrefedd yn ddigon penodol. Fel gydag amcanion gwella eraill, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio'r data sydd wrth law i bennu ei sefyllfa mewn perthynas â digartrefedd a lle mae'n gobeithio bod ar ddiwedd 2010-11.

72 Mae'r Cyngor wedi llunio Datganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy a ategir gan ddadansoddiad trylwyr o anghenion tai lleol. Mae wedi nodi nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen dros y degawdau nesaf ac, ar lefel strategol, mae'n ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr tai sicrhau bod o leiaf 30 y cant o dai mewn unrhyw ddatblygiad yn cael eu hystyried yn dai fforddiadwy. Cynyddodd nifer y tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod 2009-10 fel canran o'r tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn o 13 y cant yn 2008-09 i 24 y cant yn 2009-10, sydd ychydig yn well na chyfartaledd Cymru sef 23 y cant.

73 Unwaith eto mae amcan gwella'r Cyngor ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn rhy gyffredinol. Cydnabyddwn fod llawer o ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a all ddylanwadu ar argaeledd tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn, ond mae angen i ddinasyddion gael mwy o wybodaeth am y canlyniadau y mae'r Cyngor yn disgwyl eu gweld a'r graddau y gallai hyn ddiwallu 'anghenion lleol', fel y nodwyd fel rhan o'r amcan gwella.

74 Nododd astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod pryderon ar draws gogledd Cymru mewn ymateb i anghenion tai oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gwelwyd bod rhai cynghorau, gan gynnwys Ynys Môn, yn gweithredu polisïau gwahardd a allai arwain at sefyllfa lle na allai pobl sy'n agored i niwed ac sydd â phroblemau iechyd meddwl gael llety. Nododd yr adroddiad fod angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig, gydweithio'n well i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau.

# A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn helpu pobl i ddatblygu?

75 Mae cynghorau yn gyfrifol am sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae cynghorau a'u hysgolion yn rhannu'r cyfrifoldeb ariannol am sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod eu cyfleusterau'n gyfoes. Mae cynghorau hefyd yn gyfrifol am fonitro perfformiad ysgolion, gan ymyrryd lle y bo angen er mwyn sicrhau bod y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn ddigon da. Maent hefyd yn asesu disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ac yn darparu ar eu cyfer ac yn cyflawni nifer o swyddogaethau eraill sy'n cynorthwyo ysgolion.

76 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei thimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

77 Arolygodd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Tachwedd 2009. Nodwyd bod cefnogaeth y Cyngor i wella ysgolion yn cynnwys nodweddion da ac nad oedd unrhyw ffaeleddau pwysig. Canmolodd yr adroddiad arolygu ansawdd y berthynas rhwng y Cyngor a'i ysgolion. Roedd y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella i raddau dros y pum mlynedd rhwng 2005 a 2009, ond nododd yr adroddiad bryder ynghylch y safonau a gyrhaeddwyd gan blant saith oed a barnwyd bod cyflymdra gwelliannau mewn canlyniadau yn araf yn achos disgyblion o bob oed o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

78 Perfformiodd plant saith oed yn llawer gwell yn 2010 nag mewn blynyddoedd blaenorol, gydag 83.2 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd[3] o gymharu ag 81.6 y cant ledled Cymru gyfan. Gwellodd perfformiad plant 11 oed hefyd o gymharu â 2009, gyda 79.9 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd. Dim ond chwe chyngor arall a gyflawnodd well canlyniadau.

79 Mewn ysgolion uwchradd, gwellodd perfformiad plant 14 oed i raddau mwy na chyfartaledd Cymru, gyda 65.6 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd o gymharu â 63.7 y cant ledled Cymru. Ymhlith plant 16 oed, cyflawnodd 62 y cant o ddisgyblion drothwy Lefel 2[4] yn 2010, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 63.7 y cant. Gan ystyried lefel y prydau ysgol am ddim[5] yn ysgolion uwchradd Ynys Môn, mae disgyblion fel arfer wedi cyrraedd safonau sy'n debyg i'r meincnodau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyfrifo bob blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion.

80 Mae gan y pum ysgol uwchradd ar Ynys Môn chweched dosbarth. Mae'r ysgolion hyn yn dechrau gweithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth â'r Coleg Addysg Bellach lleol i gynnig amrywiaeth cynyddol o gymwysterau Safon Uwch a galwedigaethol. Roedd y 'sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog' (sy'n ystyried yr holl gymwysterau achrededig a enillir gan fyfyrwyr) yn

3 Bydd disgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd pan fyddant yn cyrraedd y lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg.

4 Mae Trothwy Lefel 2 yn cyfeirio at gyfres o gymwysterau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cyfateb i bum TGAU ar raddau A*-C.

5 Mae lefel y prydau ysgol am ddim yn brocsi ar gyfer lefel yr amddifadedd sydd â chysylltiad agos, yn ei thro, â lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

ysgolion Ynys Môn yn cyfateb i'r uchaf o blith holl gynghorau Cymru yn 2009 a'r bedwaredd uchaf yn 2010.

81 Nododd arolygiad Estyn yn 2009 fod y nodweddion da yn drech na'r diffygion o ran darpariaeth y Cyngor ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Ar y cyfan mae disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn cyflawni'n dda mewn ysgolion ond mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth unigol i nifer uchel a chynyddol o ddisgyblion, gan olygu ei fod yn gorwario'n fynych yn y maes hwn. Roedd y Cyngor yn cymryd camau i ymdrin â'r mater hwn ar adeg arolygiad Estyn ond mae'r gwariant ar gyfer 2010-11 yn debygol o ragori ar y gyllideb unwaith eto. Nid yw systemau TGCh y Cyngor yn galluogi swyddogion i ddadansoddi faint o gymorth y mae'n ei ddarparu a cheisio dod o hyd i atebion mwy effeithlon.

82 Nododd arolygiad Estyn yn 2009 fod nodweddion da yn drech na'r diffygion o ran y ffordd y mae gwasanaethau addysg y Cyngor yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn yr adroddiad nodwyd bod lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn wael yn ystod y tair blynedd flaenorol ond y bu gwelliant sylweddol ym mlwyddyn academaidd 2008/09, pan gyrhaeddodd lefelau presenoldeb 90 y cant am y tro cyntaf ers 2003/03 a bron gyfateb i gyfartaledd Cymru. Roedd y Cyngor wedi gwneud trefniadau da i leihau nifer y gwaharddiadau mewn ysgolion, er bod nifer fach o ddisgyblion yn colli gormod o ysgol o ganlyniad i gael eu gwahardd. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno ystod eang o fentrau i gynorthwyo pobl ifanc a oedd wedi dadrithio neu mewn perygl o gael eu gwahardd.

83 Cynhaliwyd arolygiad Estyn yn 2009 yn fuan iawn ar ôl i'r Cyngor ddechrau ymateb i'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol a oedd wedi cael ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn. O ran rheoli strategol, nododd Estyn fod nodweddion da yn drech na'r ffaeleddau. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at rai o'r gwendidau corfforaethol a nodwyd yn flaenorol ond mae hefyd yn dod i gasgliadau cadarnhaol ynghylch yr uwch reolwyr yn y gwasanaeth addysg a rôl y cynghorydd a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth ar y pryd. Roedd a wnelo'r diffygion a nododd Estyn ag arafwch y newidiadau yn bennaf, yn enwedig o ran y broses o ad-drefnu ysgolion, a'r ffaith nad oedd unrhyw her i arfer a pherfformiad. Noda'r adroddiad hefyd, er bod cydberthnasau ag ysgolion yn dda ar y cyfan, fod ysgolion yn dibynnu gormod ar y Cyngor.

84 Mae'r broses o ad-drefnu ysgolion yn mynd rhagddi bellach ar ôl cyfnod hirfaith lle na wnaeth cynghorwyr gymryd y penderfyniadau anodd ond angenrheidiol. Caeodd dwy ysgol gynradd fach ar 31 Awst 2010 a bydd dwy arall yn cau yn 2011. Dengys y data diweddaraf, ar sail y sefyllfa cyn yr achosion diweddar o gau ysgolion, fod nifer y lleoedd gwag yn ysgolion y Cyngor wedi lleihau ychydig. Serch hynny, mae bron i 3,000 o leoedd gwag o hyd, gyda bron i chwarter y capasiti yn segur.

85 Mae cost[6] addysg gynradd, sef £5,253 y disgybl ar gyfer 2010-11, yn cyfateb i'r ail uchaf o blith yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Y gost gyfatebol i ysgolion uwchradd yw £4,811 y disgybl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef £4,726 y disgybl. Ar ddiwedd 2009-10, roedd gan ysgolion ar Ynys Môn gronfeydd wrth gefn gwerth tua £3.1 miliwn, sef tua £335 wrth gefn fesul disgybl, y ffigur uchaf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru o gryn dipyn.

6 Daw'r costau o Ffurflenni Cyfrif Refeniw ac maent yn cynnwys grantiau penodol. Maent yn cynnwys gwariant o gyllidebau canolog a ddyrannwyd i ysgolion yn ogystal â chyllidebau dirprwyedig.

## A yw'r Cyngor yn meithrin sgiliau er mwyn diwallu anghenion y farchnad lafur?

86 O dan y pennawd 'datblygu pobl', canolbwyntiwyd ar ymrwymiad y Cyngor i feithrin sgiliau er mwyn diwallu anghenion y farchnad lafur. Mae Arddangosyn 3 yn nodi'r hyn sy'n fwriad gan y Cyngor.

87 Mae economi leol Ynys Môn wedi wynebu cryn anhawster yn ystod y blynyddoedd diwethaf a adlewyrchir mewn cyfradd cyflogaeth is na'r cyfartaledd ac incymau cyfartalog cymharol isel. Yn unol â chyfartaledd Cymru, mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau wedi gostwng yn raddol ar Ynys Môn ers 2000 a, heblaw am 2006 a 2008, mae Ynys Môn wedi bod islaw cyfartaledd Cymru. Cododd canran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel 4 NQF ac uwch[7] yn unol â chyfartaledd Cymru rhwng 2001 a 2005 ond cafwyd cwymp sylweddol islaw cyfartaledd Cymru yn 2006, lle yr arhosodd am y ddwy flynedd nesaf.

88 Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda o ran sicrhau mai prin yw nifer y rheini sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw fath o gymhwyster. Fodd bynnag, bu cyfran y plant 16 oed sy'n dewis aros mewn addysg llawn amser ar Ynys Môn yn is na chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Er i'r gyfran a arhosodd mewn addysg llawn amser dyfu yn 2009, mae'n parhau'n is na phob cyngor arall yng Nghymru heblaw pump. Gostyngodd cyfran y rheini a adawodd yr ysgol yn 2009 nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth i 5.2 y cant o gymharu â 5.7 y cant ledled Cymru. Fodd bynnag, erbyn hyn mae'r ffigur hwn yn cyfateb i'r uchaf o blith cynghorau Gogledd Cymru.

89 Fel rhan o'i waith yn datblygu'r economi leol, mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i geisio meithrin sgiliau'r gweithlu lleol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion busnesau lleol. Wrth bennu'r amcan gwella hwn, mae'r Cyngor felly yn ceisio mynd i'r afael ag agwedd ar fywyd sy'n bwysig i les llawer o'i ddinasyddion. Dengys amryw ddogfennau'r Cyngor, gan gynnwys y Crynodeb Ynni Ynys, fod y Cyngor yn llwyr ymwybodol o heriau cysylltu sgiliau a swyddi yn well. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau a welwyd gennym yn cynnwys dadansoddiad o lefelau sgiliau nac ychwaith sut mae angen meithrin sgiliau presennol er mwyn llenwi bylchau yn y farchnad waith.

90 Er mwyn gallu dangos i ddinasyddion ei fod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r amcan gwella hwn, mae angen i'r Cyngor bennu llinell sylfaen glir sy'n dwyn ynghyd ddadansoddiad o brinder sgiliau presennol a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ymdrin â hynny. Mae amrywiaeth o fentrau ar waith, gan gynnwys Ynni Ynys a Genesis Cymru, ond hyd yn hyn nid yw'r Cyngor wedi nodi'n ddigon clir sut mae'n bwriadu datblygu ac ymdrin â'r agenda sgiliau a swyddi dros y blynyddoedd i ddod, nac ychwaith sut y bydd yn mesur llwyddiant.

### Arddangosyn 3

| Amcan gwella | Canlyniad a ddymunir |
|---|---|
| Parhau i ganolbwyntio ar ddysgu gydol oes er mwyn diwallu anghenion trigolion yr ynys. | Caiff plant, pobl ifanc ac oedolion hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y farchnad lafur. |

7 Mae cymwysterau Lefel 4 yn cyfateb i Dystysgrifau Addysg Uwch ac yn briodol i bobl sy'n cyflawni swyddi technegol neu broffesiynol.

# A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

91 Mae cyfradd droseddu Ynys Môn tua dwy ran o dair o'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae wedi gostwng yn gymharol gyson i tua 70 y cant o'r ffigur a gafwyd saith mlynedd yn ôl.

92 Yn dilyn Arolygiad ar y Cyd o Gyfiawnder Troseddol a gynhaliwyd yn ddiweddar, a edrychodd ar ansawdd y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, cafwyd canfyddiadau calonogol. Yn yr adroddiad nodir y bu gwelliant nodedig o ran gwaith amlasiantaeth ers yr arolygiad blaenorol yn 2008 ac y bu cynnydd gwirioneddol o ran cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw dan glo.

93 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw 145 cilomedr o ffyrdd dosbarth A. Cynyddodd cyfran y ffyrdd hyn y barnwyd eu bod mewn cyflwr gwael ryw ychydig i 3.2 y cant yn ystod 2009-10, ond mae'n parhau i fod dipyn yn is na chyfartaledd Cymru.

94 Mae arolygiadau annibynnol Cadwch Gymru'n Daclus wedi dangos bod strydoedd Ynys Môn yn lanach na'r cyfartaledd ledled Cymru, er bod perfformiad yn yr agwedd hon ar waith y Cyngor wedi gwaethygu ers y llynedd. Gostyngodd canran y priffyrdd a thir perthnasol a arolygwyd a oedd o safon glanweithdra uchel neu dderbyniol hefyd ryw ychydig yn 2009-10. Yn ystod 2010, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo nifer o ymgyrchoedd 'glanhau' ar draethau ac mewn mannau eraill.

95 Yn ystod 2010, gwnaethom asesu pa mor dda roedd cynghorau ledled Cymru yn casglu ac yn gwaredu gwastraff cartrefi a busnesau lleol. Mae Ynys Môn yn unigryw ymhlith cynghorau Cymru am ei fod yn cyflogi cwmni preifat i gasglu gwastraff a chyflawni gwaith marchnata a hyrwyddo cysylltiedig.

96 Gwelsom fod gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio'n well a'i fod wedi rhagori gryn dipyn ar darged Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010 sef y dylai o leiaf 40 y cant o wastraff gael ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae gwelliant parhaus yn golygu bod perfformiad y Cyngor yn chwarter cyntaf 2010-11 eisoes yn rhagori ar darged Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2013. Mae boddhad y cyhoedd â'r gwasanaeth yn uchel ac mae cyfraddau cyfranogi'n dda. Lle y bo angen, mae gan y Cyngor gynlluniau realistig i wella'r cyfraddau hyn.

97 Wrth i gyfraddau compostio ac ailgylchu gynyddu, mae'r gwastraff a anfonir gan y Cyngor i safleoedd tirlenwi yn lleihau. Mae'r lle mewn safleoedd tirlenwi yn prysur leihau a bydd cost gwaredu gwastraff drwy dirlenwi yn cynyddu'n sylweddol oni bai bod y Cyngor yn cyflawni targedau llym. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o bartneriaethau gwahanol ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon. Y bartneriaeth fwyaf yw Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Mae pum cyngor wedi cydweithio i gaffael cyfleusterau trin ar gyfer gwastraff gweddilliol a fydd yn lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi'n sylweddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymeradwyo'r achos busnes dros gaffael safle trin gwastraff ac wedi cymeradwyo cyllid o £142 miliwn. Os aiff pethau yn ôl y bwriad, dylai'r safle trin gwastraff fod yn weithredol erbyn 2016. Yn y cyfamser, yn ôl rhagamcanion mae'r Cyngor yn debygol o gadw o fewn ei lwfans o ran tirlenwi.

# Beth y dylai Cyngor Sir Ynys Môn ei wneud?

98 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

99 Rydym hefyd o'r farn bod angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- Dylai'r Cyngor wella mynediad cyhoeddus i'w drafodion drwy:
  - gyhoeddi'r agenda a'r holl bapurau nad ydynt yn gyfrinachol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau ar ei wefan ymhell ymlaen llaw cyn pob cyfarfod;
  - sicrhau y caiff cofnodion pob cyfarfod o'r fath eu cyhoeddi'n ddi-oed.
- Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu dull clir o reoli risg yn gyson ymhob gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'i drefniadau rheoli perfformiad.
- Dylai'r Cyngor, yn unigol a chyda'i bartneriaid, ddiffinio cyfres glir o fesurau er mwyn asesu ei gynnydd yn gadarnach o ran mynd i'r afael â'i amcanion gwella.
- Dylai'r Cyngor integreiddio'r defnydd o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn well er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach (parhâd)**

- Er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n cynrychioli'r Cyngor mewn swyddi cyfrifol yn atebol am eu perfformiad, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:
  - datblygu system a'i gweithredu'n gyson ar draws pob gwasanaeth ar gyfer arfarnu swyddogion;
  - gweithredu'r trefniadau sy'n datblygu ar gyfer arfarnu aelodau etholedig, gan ganolbwyntio'n bennaf ar eu perfformiad o ran cyflawni eu rolau penodol ac yn fwy cyffredinol fel aelodau pwyllgorau.
- Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu strategaeth cyn etholiadau 2012 i hysbysu dinasyddion am rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr modern, ac wrth wneud hynny, hybu mwy o amrywiaeth o fewn y Cyngor.

**Cynigion newydd**

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:

- parhau i ganolbwyntio'n glir ar y rhaglen waith uchelgeisiol y mae wedi'i phennu iddo'i hun yn ystod 2010-11;
- mabwysiadu rhaglen sydd yr un mor uchelgeisiol ar gyfer 2011-12 sy'n cynnal momentwm y misoedd diwethaf.

Wrth baratoi ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12, dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei amcanion a'r Cynllun Gwella cysylltiedig yn fwy hygyrch i randdeiliaid â diddordeb;
- diffinio ei amcanion gwella fel eu bod:
  - yn glir - gan nodi'r gwelliannau y gall dinasyddion eu disgwyl;
  - yn gadarn - gyda diffiniadau pendant o lwyddiant boed yn feintiol neu'n ansoddol;
  - yn rhai y gellir eu dangos - a all gael eu hategu gan dystiolaeth wrthrychol ond nid o reidrwydd gan dystiolaeth fesuredig na meintiol.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.[8]

8 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o’r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn pennu a yw’r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o’r Mesur. Bydd SAC hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth a chynlluniau gwella, fel sy’n ofynnol o dan adran 17 o’r Mesur, er mwyn pennu a yw’r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad/Adroddiadau Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn

Yn 2009-10, gwariant refeniw gros y Cyngor oedd £155.4 miliwn, sy'n gyfystyr â £2,260 fesul preswylydd. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £24.5 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar Ynys Môn oedd £1,012.79, gan gynnwys praeseptau'r heddlu a chynghorau cymuned; mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 4.16 y cant i £1,054.92 miliwn ar gyfer 2010-11. Mae 74 y cant o dai Ynys Môn yn y bandiau treth gyngor A i D.

Ceir 40 o gynghorwyr sy'n cynrychioli cymunedau Ynys Môn ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Bu newidiadau diweddar i aelodaeth grwpiau gwleidyddol, ond, ar 24 Ionawr 2011, roedd fel a ganlyn:

- 15 Annibynnol (Gwreiddiol)
- 8 o Blaid Cymru
- 5 Llais i Fôn
- 5 o'r Blaid Lafur
- 5 Heb Ymlyniad
- 2 Menai

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Mr David Bowles yw Rheolwr Gyfarwyddwr Interim y Cyngor. Caiff ei gefnogi gan bedwar Cyfarwyddwr Corfforaethol, sef Mr David Elis-Williams, Mr Richard Parry-Jones, Mr Arthur Owen a Mr T Gwyn Jones. Mae'r Cyngor yn cyflogi 3,069 o staff (gan gynnwys athrawon ac aelodau eraill o staff ysgol).

Yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn yw:

- Ieuan Wyn Jones, Plaid Cymru

Aelod Seneddol Ynys Môn yw:

- Albert Owen, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW, neu ffoniwch 01248 750057.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2010:

**Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyrraeth Weinidogol ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio'i drefniadau corfforaethol ac i sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae llawer o'r seiliau wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig, ond erys amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd gwelliannau:

- Yn dilyn hanes hir o gamweinyddu, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gyfarwyddyd yn 2009, gan benodi Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i arwain ymateb y Cyngor a Bwrdd Adfer i fonitro ei gydymffurfiaeth.
- Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r agenda ar gyfer newid a osodwyd yn allanol, ac mae'n gosod y seiliau ar gyfer gwella ond erys cryn dipyn o waith i'w gyflawni.
- Mae tensiynau rhwng cynghorwyr yn parhau i ddod i'r amlwg ac mae'n rhy gynnar i fod yn hyderus y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella mewn modd cynaliadwy.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweinyddiaeth gadarn yn dechrau gwella'r trefniadau llywodraethu, ond erys cryn dipyn o waith i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor.

- Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, gyda chefnogaeth y Bwrdd Adfer, yn hybu gwelliannau strwythurol a diwylliannol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor, ond mae'n rhy gynnar i lunio barn ar p'un a fydd y gwelliannau hyn yn gynaliadwy.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda, ar y cyfan, gyda phartneriaid i ddarparu ystod eang o wasanaethau, ond prin yw'r wybodaeth sydd ganddo am gostau a manteision gweithio mewn partneriaeth.
- Nid yw fframwaith polisi a strategaeth y Cyngor yn ddigon clir a chyson eto i gefnogi proses gydlynol o gynllunio staff ac adnoddau, a chyflwyno gwell prosesau busnes.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei drefniadau rheoli pobl yn wan ac yn llesteirio gwelliannau, ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

**Ni chydymffurfiodd Cyngor Sir Ynys Môn â'r rheoliadau adrodd ariannol ac mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, cydymffurfiodd â'r rheoliadau o ran cyflwyno adroddiadau ar wella perfformiad**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- cyflwyno tystysgrif i gadarnhau ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 24 Rhagfyr 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- cafodd y broses o baratoi datganiadau cyfrifyddu ei llesteirio'n ddifrifol gan brinder staff yn yr adran gyllid ac ni lwyddodd y Cyngor i ddarparu cyfrifon diwygiedig cadarn erbyn 30 Medi 2010;
- ni chymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor erbyn 30 Medi 2010, sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd);
- nid oedd cofnodion asedau sefydlog wedi'u cadw'n ddigonol ac nid yw'r gofrestr asedau sefydlog yn addas at y diben;
- mae'r broses o gadw cofnodion cyfrifyddu ar daenlenni lluosog cymhleth yn cymryd cryn amser ac mae'n cynyddu'r posibilrwydd y bydd cofnodion ariannol yr Awdurdod yn agored i dwyll neu wallau. Mae angen gwella lefel arbenigedd a swyddogaethau'r systemau cyfrifyddu ar frys er mwyn lleihau'r risg hon;
- bu'n rhaid oedi cyn cyflwyno ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan o ganlyniad i'r oedi o ran y Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r tîm rheoli wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn gwella gwaith paratoi cyfrifon a phrosesau archwilio yn y dyfodol, ac mae wedi dechrau gwaith ar gynlluniau ar gyfer gwella yn 2010/11.

Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- mae trefniadau rheolaeth gyllidebol effeithiol ar waith ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu datblygu, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol;
- nid yw trefniadau rheoli risg wedi eu datblygu'n ddigonol a dylid gyrru ymlaen gyda'r cynlluniau sydd gan yr Awdurdod i weithredu prosesau rheoli risg;
- nid oes gan yr Awdurdod gynllun adfer ar gyfer unrhyw drychineb TG na Chynllun Parhad Busnes yn eu lle;
- roedd y broses Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â safonau CIPFA.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 (Adolygiad Perfformiad 2009-10) yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun ar ei wefan o fewn y terfyn amser statudol ond, ar 5 Tachwedd, nid oedd copïau caled ar gael felly cyfyngwyd ar fynediad i'r ddogfen.

Nid ydym yn gallu cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd yr archwiliad o gyfrifon 2009/10 oherwydd ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt i weinyddu grantiau adnewyddu.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn uwch na'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i gwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

PricewaterhouseCoopers LLP
Archwilydd Penodedig
20 Ionawr 2011

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir Ynys Môn

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk. Maent wedi cael eu grwpio o dan bum Blaenoriaeth Strategol:

**Gwella enw da'r Cyngor a'r ynys**

- cyflawni'r prosiect arweinyddiaeth gymunedol a chynnwys y gymuned;
- gweithredu'r rhaglen datblygu aelodau;
- rheoli ei enw da yn well.

**Diogelu a datblygu economi'r ynys**

- datblygu a chyflawni'r rhaglen Ynni Ynys er mwyn gwneud y gorau o fewnfuddsoddi, creu swyddi a meithrin sgiliau;
- defnyddio ffrydiau ariannu allanol allweddol er mwyn cefnogi prosiectau adfywio;
- datblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth;
- gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i lunio Cynllun Datblygu Lleol.

**Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy**

- parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor er mwyn bodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru;
- cyflawni'r rhaglen tai fforddiadwy gyda sefydliadau partner, gan gynnwys llunio Strategaeth Cartrefi Gwag;
- parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i bobl ddigartref oherwydd y galw amrywiol;
- adolygu strwythur y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Datblygu rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar dlodi plant a sgiliau allweddol a llunio Cynllun Partneriaeth diwygiedig ar gyfer 2011-14;
- llunio strategaeth i fodloni gofynion menter Ysgolion yr 21fed Ganrif Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cynnwys y rhaglen rhesymoli ysgolion;
- canolbwyntio ar gyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol y Cyngor a threfniadau diogelu plant
- parhau i ganolbwyntio ar ddysgu gydol oes er mwyn diwallu anghenion trigolion yr ynys;
- parhau i ganolbwyntio ar wella sgiliau craidd yn unol â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad;
- adolygu rhesymeg darparu amrywiaeth o weithgareddau amwynderau a thwristiaeth yn uniongyrchol, sy'n cynnwys safleoedd treftadaeth, parciau a gwasanaethau hamdden, cefn gwlad a morol;
- parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog yn y Cyngor a hyrwyddo'r iaith Gymraeg;

- parhau i weithredu rhaglen lleihau gwastraff a mentrau ailgylchu'r Cyngor ynghyd â threfniadau cydweithredu sy'n ymdrin â gwastraff gweddilliol;
- datblygu rhaglen lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni sy'n gysylltiedig â'r fframwaith Ynni Ynys.

**Hybu cymunedau iach, diogel a theg**

- parhau i weithredu amrywiaeth o fentrau/rhaglenni i gefnogi meysydd â blaenoriaeth Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-11 er mwyn hyrwyddo arferion byw'n iach ymhob grŵp oedran;
- paratoi Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ddiwygiedig ar gyfer 2011-14;
- ailfodelu gwasanaethau hamdden ar yr ynys;
- gweithio gyda Gogledd Cymru i weithredu gwasanaeth teleofal integredig ar gyfer y rhanbarth a datblygu opsiynau ar gyfer teledu cylch cyfyng;
- gweithio gyda sefydliadau partner i weithredu Cynllun blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol;
- cyfrannu tuag at weithredu strategaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gynhwysiant cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar anweithgarwch economaidd, mynediad cyhoeddus, cynhwysiant ariannol a thlodi plant;
- ailfodelu cyfleusterau gofal yn y cartref, gofal preswyl a gofal dydd.

**Gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy**

- gwella trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad y Cyngor;
- mentrau ar y cyd i reoli newid a gwneud gwell defnydd o adnoddau - gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau Gogledd Cymru ar y pedair rhaglen rheoli newid - Addysg, Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Cymorth Canolog;
- gweithredu'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy mewn amrywiaeth o wasanaethau er mwyn lleihau costau a sicrhau darpariaeth sy'n fwy addas at y diben;
- paratoi Strategaeth TGCh i wella prosesau busnes e.e. rheoli dogfennaeth a datblygu gwefan;
- gwneud trefniadau i fantoli cyllideb y Cyngor gyda llai o adnoddau dros y blynyddoedd i ddod a gweithredu'r strategaeth ariannol tymor canolig;
- paratoi strategaeth rheoli risg er mwyn atgyfnerthu trefniadau rheoli risg y Cyngor;
- gwella'r broses o reoli'r gweithlu fel rhan o'r prosiect datblygu pobl, gan gynnwys adolygiad sefydliadol parhaus, adolygiad o Adnoddau Dynol ac adolygiad o Gyflogau a Graddau;
- gwneud gwell defnydd o asedau'r Cyngor a datblygu'r Cynllun Rheoli Asedau ymhellach.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol